| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cynghorydd Elen Heaton – Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| **Dyddiad yr Adroddiad** | 26 Medi 2022 |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog** | y Cynghorydd Elen Heaton / Nicola Stubbins / Ann Lloyd / Rhiain Morrlle |
| **Awdur yr Adroddiad** | Ann Lloyd |
| **Teitl** | Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad Gogledd Cymru – Adroddiad Drafft 2022 |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. I roi trosolwg o Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad Gogledd Cymru 2022 (gweler Atodiad 1), sydd wedi cael ei lunio fel gofyniad dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

1.2. Mae'n rhaid llunio un Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad rhanbarthol drafft ar gyfer Rhanbarth Gogledd Cymru a'i gymeradwyo gan y Cyngor Llawn ar gyfer pob un o'r 6 ardal Awdurdod Lleol a Bwrdd y Bwrdd Iechyd Lleol. Bydd fersiwn terfynol yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad yn mynd i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i'w gymeradwyo'n derfynol ym mis Tachwedd 2022 cyn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I geisio cymeradwyaeth ar gyfer Drafft Terfynol Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad Gogledd Cymru.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod yr Aelod Arweiniol yn cymeradwyo Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad Gogledd Cymru 2022 ar frys er mwyn ei gyflwyno i'r Cyngor llawn er cymeradwyaeth, yn sgil yr oedi a achoswyd gan y cyfnod o alaru.

3.2. Bod yr Aelod Arweiniol yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les fel rhan o'u hystyriaethau.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol weithio mewn partneriaeth i baratoi a chyhoeddi Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad yn seiliedig ar ddata ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yn ogystal â fersiwn agregedig ar ôl troed y BPRh.

4.2. Bydd yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau rhanbarthol a lleol ynghylch comisiynu gofal a chymorth, gan fwydo i mewn i'r cynllun strategol ar gyfer ardal y BPRh a helpu i lunio strategaethau comisiynu lleol a rhanbarthol.

4.3. Wrth baratoi eu Hadroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad, mae'n rhaid i awdurdodau lleol gynnal asesiad o:

a) Digonolrwydd y gofal a'r cymorth i ddiwallu anghenion a galw am ofal cymdeithasol fel y nodir yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth a
b) Sefydlogrwydd y Farchnad ar gyfer gwasanaethau a reoleiddir sy'n darparu gofal a chymorth.

4.4. Mae'r asesiad o'r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad yn canolbwyntio ar wasanaethau a reoleiddir. Sef:

- gwasanaethau cartrefi gofal (oedolion a phlant)
- gwasanaethau llety diogel (i blant)
- gwasanaethau canolfan breswyl i deuluoedd
- gwasanaethau mabwysiadu
- gwasanaethau maethu
- gwasanaethau lleoli oedolion ('rhannu bywydau')
- gwasanaethau eirioli
- gwasanaethau cymorth cartref

4.5 Mae’r Cod Ymarfer hefyd yn nodi themâu eraill y mae’n rhaid eu hystyried yn yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad gan gynnwys:

a) Gwerth Cymdeithasol

b) Y Gymraeg

c) Y Gweithlu

d) Taliadau Uniongyrchol a darpariaeth a ariennir ei hun

4.6 Mae cysylltiad cryf rhwng yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad a’r Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru 2022 a gynhyrchwyd yn ddiweddar lle mae’n nodi’r angen a’r galw ar hyn o bryd ac a ragwelir am ofal a chymorth, ac ystod a lefel y gwasanaethau y bydd eu hangen i ateb y galw hwnnw. Bydd yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad yn asesu digonolrwydd y gofal a’r cymorth a ddarperir i ddiwallu’r anghenion a’r galw a adnabyddwyd yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth.

4.7 Mae’r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth a’r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad yn ddogfennau byw a fydd angen cael eu diweddaru a byddant yn cael eu defnyddio i gynllunio cynllun cyflawni lleol a rhanbarthol a chynlluniau datblygu gwasanaethau wrth symud ymlaen.

4.8 Dylid nodi mai ychydig iawn o ddata cenedlaethol ar y farchnad ofal oedd ar gael ac felly yr ydym wedi dibynnu'n fawr ar wybodaeth gomisiynu leol a rhanbarthol.

4.9 Mae’r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad yn ddogfen sydd wedi’i gydgynhyrchu ac wedi’i arwain gan ymgysylltu sy’n golygu bod gennym ni ddogfen Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad sy’n ystyrlon ac yn seiliedig ar wybodaeth gan gynnwys amrywiaeth eang o bobl, o gymharu â dogfen wedi’i chreu ar ei phen ei hun yn ystod ymarfer pen desg, sef y dull a ddefnyddiwyd gan ardaloedd eraill yng Nghymru.

4.10 **Negeseuon Lleol Allweddol o’r Dadansoddiad o Anghenion y Boblogaeth -**

- Mae gostyngiad bychan wedi bod yng ngallu cyffredinol y sector cartrefi gofal yn Sir Ddinbych dros y blynyddoedd diwethaf. Mae llai o alw am ofal preswyl heb gymorth ychwanegol ar gyfer anghenion iechyd meddwl neu anghenion corfforol cymhleth.

- Mae'r nifer o bobl gydag anableddau dysgu sydd angen cymorth yn cynyddu ac mae pobl gydag anableddau dysgu yn byw yn hirach. Mae'r tueddiadau demograffig hyn yn dueddol o barhau.

- Mae'r rhan fwyaf o unigolion a'u teuluoedd eisiau / yn disgwyl cael lefel uwch o annibyniaeth a bod yn rhan allweddol o'u cymuned.

- Darperir cymorth fel arfer gan aelodau o'r teulu agos a/neu staff gofal â thâl hirdymor. Mae asedau anffurfiol yn y gymuned yn cael eu defnyddio llai.

- Mae yna ddarparwyr amrywiol wedi'u lleoli yn Sir Ddinbych. Fodd bynnag, mae nifer cyfyngedig o leoliadau nyrsio a phreswyl ar gael ar gyfer iechyd meddwl pobl hŷn.
- I ofalwyr, mwy o gymorth seibiant (sy'n canolbwyntio ar gyflyrau penodol) i adlewyrchu'r ystod o wahanol anghenion, er enghraifft lleoedd sy'n addas i bobl ag anaf a gafwyd i'r ymennydd, strôc, dementia a chyflyrau niwrolegol eraill (mewn argyfwng a hefyd ar gael i'w trefnu o flaen llaw).
- Mae Sir Ddinbych yn cydnabod y materion canlynol sy'n effeithio ar gynaliadwyedd y Gwasanaeth Maethu: Mae'r pandemig wedi effeithio ar recriwtio gofalwyr maeth mewnol gyda diffyg ymgeiswyr yn dod ymlaen. Mae hyn yn arwain at ddefnyddio mwy o Ddarparwyr Maethu Annibynnol. Mae diffyg argaeledd wedi arwain at ddim cynigion neu leoliadau o fewn pellter sylweddol, nad yw bob amser er budd pennaf yr unigolyn ifanc.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae'r asesiad o Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad o ddigonolrwydd a sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer gwasanaethau a reoleiddir yn ychwanegu at yr asesiad o anghenion gofal a chymorth y boblogaeth sydd yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth. Mae'r ddogfen Asesiad o Anghenion y Boblogaeth a'r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad yn cyfrannu at gylchoedd cynllunio

strategol ar lefel rhanbarthol a lleol, ac felly bydd hyn yn cefnogi blaenoriaethau corfforaethol yr awdurdod lleol sydd yn gysylltiedig ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol y preswylwyr.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Bu yna gost i'r awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran amser staff ac adnoddau i gefnogi'r prosiect. Mae hyn yn cynnwys ymgymryd â'n gwaith ymgysylltu i gefnogi dadansoddi ac ysgrifennu'r adroddiad.

6.2. Wrth edrych tua'r dyfodol bydd yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad yn nodi blaenoriaethau rhanbarthol a lleol, efallai y bydd y blaenoriaethau yma angen rhyw lefel o fuddsoddiad naill ai ar lefel leol neu ranbarthol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Mae'n rhaid i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lunio Asesiad o Les fel gofyniad o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Roedd asesiad o'r boblogaeth yn ystyried anghenion gofal a chefnogaeth y boblogaeth tra bod yr Asesiad Lles yn ymdrin â ffyniant, iechyd, cydnerthedd, cydraddoldeb, diwylliant bywiog, cyfrifoldeb byd-eang a chymunedau cydlynol. Mae yna orgyffwrdd rhwng y ddau, felly mae'r tîm prosiect ar gyfer yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad yn trafod gyda swyddogion o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus am gynnydd yr asesiad o anghenion ac asesiadau Lles a rhannu gwybodaeth lle bo'n angenrheidiol.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cymeradwywyd yr adroddiad gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ar 14 Gorffennaf 2022 ac mae wedi bod i'r Tîm Gweithredol Corfforaethol.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Bu yna gost i'r awdurdodau lleol, BIPBC ac Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran amser staff ac adnoddau i gefnogi'r prosiect. Mae hyn yn cynnwys staff i wneud gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth, staff ac aelodau etholedig a staff i gefnogi'r gwaith o ddadansoddi ac ysgrifennu'r adroddiad.

9.2. Wrth edrych tua’r dyfodol bydd yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad yn nodi blaenoriaethau rhanbarthol a lleol, efallai y bydd y blaenoriaethau yma angen rhyw lefel o fuddsoddiad naill ai ar lefel leol neu ranbarthol.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Ni nodwyd unrhyw risgiau o ran creu a chyhoeddi’r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. s144B Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014

11.2. Atodiad 2(b) Adran 13 Cyfansoddiad y Cyngor